Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

**CADEIRYDD/CHAIRMAN: JOHN LLOYD JONES OBE PRIF WEITHREDWR/CHIEF EXECUTIVE: ROGER THOMAS**
Anfonwch eich ateb at/Please reply to: Dr David Parker, Director Science - Cyfeiriad Isod/Address Below
Llinell Union/Direct Line: 01248 385620 Ffacs/Fax: 01248 385427
Ebost/Email: an.jones@ccw.gov.uk

29-03-06

**TIR GOFAL**

Mae'n debyg eich bod yn gwybod bod Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad, wedi cyhoeddi ar 30 Tachwedd 2004 y bydd Tir Gofal yn symud o ddwylo'r Cyngor Cefn Gwlad (CCGC) i ddwylo Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fe fydd y newid hwn yn digwydd ar 16 Hydref 2006.

Ar y dyddiad hwn, fe fydd holl hawliau a rhwymedigaethau'r CCGC o safbwynt Tir Gofal (ac eithrio SoDdGA, rhywogaethau dan warchodaeth neu ddeddfwriaethau mynediad agored) yn trosglwyddo i ddwylo Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni fydd y newid gweinyddol hwn yn effeithio o gwbl ar eich hawliau a'ch rhwymedigaethau chi dan eich cytundeb Tir Gofal. Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd wedyn yn gyfrifol am gyflwyno taliadau ac am fonitro ffermydd.

Fe fydd staff Tir Gofal sydd, ar hyn o bryd, yn gweithio ar y cynllun yn symud dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r cynllun ei hun, felly fe fyddant yn parhau i weithio yn eu hardaloedd eu hunain. Yn nes at yr amser, byddwn yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau manylion eu swyddfeydd, eu rhifau ffôn a'u manylion cyswllt.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod y CCGC a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio er mwyn gwneud yn siŵr y bydd lefel y gwasanaeth a gawsoch yn y gorffennol yn parhau yn ystod y newid, gan geisio sicrhau y bydd y newid hwn yn effeithio cyn lleied â phosibl arnoch.

Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â'r llythyr hwn, a fyddech gystal â chysylltu â'ch Swyddog Prosiect Tir Gofal.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr David Parker
Rheolwr Cynllun Tir Gofal

**TIR GOFAL**

You may well be aware that on 30th November 2004 the First Minister, Rhodri Morgan announced the transfer of responsibility for Tir Gofal from the Countryside Council for Wales (CCW) to the Welsh Assembly Government. Subject to the approval of the National Assembly for Wales, the transfer of responsibility is scheduled to take place on 16th October 2006.

On this date all rights and obligations to CCW with regard to Tir Gofal (but not SSSIs, protected species or open access legislation) will be transferred to the Welsh Assembly Government. Your rights and obligations under your Tir Gofal agreement will remain unchanged by this administrative change. The Welsh Assembly Government will be responsible for making agreement payments and undertaking all the monitoring of farms.

Tir Gofal staff currently working on the scheme will be transferring to the Welsh Assembly Government with the scheme and will still be working in their local areas. We will write to you confirming the details of the offices, their telephone numbers and contact details closer to the transfer date.

Please be assured that CCW and the Welsh Assembly Government are working together to ensure that the level of service you have received in the past is maintained during the changeover and that the impact of this change on you is kept to a minimum.

If you have any queries about this letter please contact your Tir Gofal Project Officer.

Yours sincerely,

Dr David Parker
Tir Gofal Scheme Manager

**Gofalu am natur Cymru - ar y tir ac yn y môr**
**Caring for our natural heritage - on land and in the sea**